| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw** |
| **DYDDIAD** | **8 Tachwedd 2022** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwrfeistr** |
| **AWDUR** | **Gwasanaeth Morwrol** |

## H 1 Materion Mordwyo

1.1 Mae cwrs y sianel fordwyo wrth ddynesu at yr harbwr wedi aros yn eithaf cyson dros gyfnod yr haf. Fodd bynnag, defnyddiwyd cymhorthydd mordwyo newydd dros dro ar yr ochr chwith yn y sianel ar ddechrau'r tymor prysur, i gynorthwyo morwyr i fordwyo tafod o dywod a oedd wedi symud i'r dyfroedd mordwyo.

1.2 Bydd dynesfa'r sianel i'r harbwr yn parhau i gael ei monitro gan staff yr harbwr yn ystod y cyfnod sydd i ddod a, phan fo angen, bydd newidiadau'n cael eu gwneud i leoliadau'r marciau mordwyo yn dilyn cymeradwyaeth gan Trinity House gan ddefnyddio contractwr lleol.

1.3 Derbyniodd y Gwasanaeth ei archwiliad blynyddol ar Gymorthyddion Mordwyo yn Harbwr Abermaw a dynesfa'r sianel gan staff Trinity House ar 4 Hydref 2022. Yn dilyn archwiliad, canfuwyd bod yr holl gymhorthion mordwyo mewn cyflwr da ac effeithlon.

1.4 Ar hyn o bryd, mae un Hysbysiad Lleol i Forwyr mewn grym yn Harbwr Abermaw; Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif 05/22 - Nid yw marc dŵr diogel ‘bwi Fairway’ sydd wedi’i leoli yn 52° 42.796’ N 004° 04.906’ W ar ei safle priodol ar hyn o bryd.

1.4.1 Bydd bwi presennol ‘Fairway’ yn cael ei ddisodli gan fwi sydd newydd ei adnewyddu wedi’i baratoi gan staff yr harbwr. Pan fo'r amodau tywydd a'r llanw yn caniatáu, a phan fo'r contractwr angorfeydd ar gael, gosodir y bwi a adnewyddwyd yn ei safle cyn gynted â phosib, ynghyd ag angor newydd, cadwyn a chyplynnau newydd, ar gost i'r Gwasanaeth o £2,964.22.

1.5 Atgoffir morwyr o'r angen i gysylltu gyda swyddfa'r harbwrfeistr cyn gadael neu ddynesu, i dderbyn yr wybodaeth fordwyo a'r wybodaeth tywydd ddiweddaraf.

## H 2 Materion Gweithredol

2.1 **Tymor yr Haf:** Denodd tywydd yr haf nifer o ymwelwyr i gyffiniau'r harbwr. Tra bod y mwyafrif helaeth o ymwelwyr yn parchu amgylchedd yr harbwr, roedd cynnydd amlwg eto yn nifer y digwyddiadau o staff yn dioddef camdriniaeth eiriol neu ystumiau wrth ymgymryd â'u dyletswyddau. Mae gollwng ysbwriel yn ddi-esgus o gwmpas yr harbwr yn parhau i fod yn broblem yn ystod misoedd yr haf.

2.2 Dioddefodd cwch patrôl ‘Powercat’ yr Harbwr broblemau peiriant drwy gydol yr haf. Er gwaethaf gwaith cynnal a chadw rheolaidd, dioddefodd y ddau beiriant o broblemau carbiwretor, yn sylfaenol oherwydd ansawdd y tanwydd sydd bellach yn cael ei gylchredeg yn gyffredinol. O ganlyniad, er mwyn sicrhau diogelwch y cwch a'r sawl sy'n ei ddefnyddio, mae'r Gwasanaeth nawr yn ystyried adnewyddu'r peiriannau ar y cwch ar gost o thua £15,000.

2.2.1 Mae'r ôl-gerbyd ffordd sy'n dal cwch patrôl yr harbwr hefyd wedi cael ei atgyweirio'n ddiweddar. Pan fydd wedi'i ddychwelyd o adran cynnal a chadw fflyd y Cyngor, bydd y cwch harbwr yn cael ei dynnu o'r dŵr a'i gludo i Harbwr Porthmadog i'w atgyweirio a'i storio am y gaeaf.

**H 3 Cynnal a Chadw**

3.1 Adnewyddwyd dwy o'r tair angorfa 'ymwelwyr' a weithredir gan y Gwasanaeth a'u hadleoli i ddŵr dyfnach yn yr harbwr cyn dechrau'r tymor prysur. Roedd hyn yn cynnwys darparu cadwyni codi, cyplynnau a bwylltidau newydd yn ogystal â bwiau angori 'Hippo' newydd. Cafodd y drydedd angorfa ymwelwyr, sydd wedi'i lleoli ger y bont reilffordd, ei harchwilio a'i chynnal a'i chadw hefyd gan gontractwr angorfeydd lleol.

3.1.1 Defnyddiwyd yr angorfeydd ymwelwyr drwy gydol yr haf, gyda nifer o ymwelwyr hefyd yn manteisio ar y cyfle i angori ger wal y cei.

3.1.2 Cynhaliwyd gwiriadau cynnal a chadw gan staff yr harbwr ar yr 'angorfeydd trot mawr' a'r 'angorfeydd trot bach' a osodwyd yn ddiweddar ac a weithredir gan y Gwasanaeth, i sicrhau diogelwch cwsmeriaid.

3.2 Mae mainc newydd wedi'i gosod gan staff yr harbwr, wedi'i lleoli ar flaen yr harbwr ger safle'r 'Lobster Pot'. Mae cost y fainc a'r plac cysylltiedig wedi'u talu gan y Swyddfa Gartref fel rhodd yn dilyn yr ymchwiliad annibynnol i gam-drin plant yn rhywiol. Mae meinciau tebyg wedi'u gosod mewn gwahanol leoliadau o amgylch y Deyrnas Unedig.

3.3 Yn ystod yr haf mae staff yr harbwr wedi glanhau'r 'Tŷ Crwn' hanesyddol sydd wedi'i leoli ger lloc yr harbwr gan adnewyddu'r cloeon diogelwch ar y giatiau.

**H 4 Materion Eraill**

4.1 **Gwaith Adfer ar Bont Reilffordd Abermaw:** Mae'r gwaith ar y bont yn parhau. Ar hyn o bryd mae'r bont yn agored i'r cyhoedd a thraffig rheilffordd tan 2000 o'r gloch ar 13 Tachwedd pan fydd yn cau ar gyfer gwaith strwythurol pellach. Bydd y bont yn ailagor ar 10 Rhagfyr dros gyfnod y Nadolig.

4.2 **Lloc yr harbwr:** Mae'r Gwasanaeth wedi gwerthfawrogi'r ymdrechion a wnaed gan ddeiliaid lleiniau i dacluso eu lleiniau unigol yn y lloc. Mae gwaith pellach i'w wneud i alluogi atgyfnerthu terfynau lleiniau unigol gan gynnwys cael gwared ar dywod sydd wedi cronni.

4.2.1 Mae'r Gwasanaeth yn bwriadu adnewyddu'r rhwystr traffig ar waelod ffordd y lloc gyda rhwystr math awtomatig, i atal defnydd anawdurdodedig o'r mannau parcio ceir ar y safle. Mae amcangyfrif o gostau'r prosiect yn cael ei gasglu ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, bydd y rhwystr presennol yn cael ei gynnal a'i gadw gan staff yr harbwr.

**H5 Digwyddiadau**

5.1 Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau yn yr harbwr ac ar y prif draeth gerllaw yn ystod misoedd yr haf, yn cynnwys:

- Dathliadau Jiwbili'r Frenhines
- Gŵyl Fwyd Abermaw
- Ras Ffordd 10k Barmouth Striders
- Ras y Tri Chopa
- Gŵyl Farcud

5.2 Dymuna'r Gwasanaeth hysbysu trefnwyr digwyddiadau i'r dyfodol o'r angen i roi gwybod ymlaen llaw i swyddfa'r harbwr. Ni chaniateir cynnal unrhyw ddigwyddiadau oni bai bod caniatâd ysgrifenedig y Gwasanaeth wedi ei dderbyn.